❖ Daeth Iesu'n Waredwr i'r Byd

Cenir ar 'Cân yr Adfywiad Newydd'

Y mae'r clychau yn canu yn glir ym mhob man,
Daeth Iesu'n Waredwr i'r byd;
Daw doethineb i'r ffôl a daw cryfder i'r gwan,
Daeth Iesu'n Waredwr i'r byd.

Byrdwn:
Daeth Iesu'n Waredwr i'r byd,
Daeth Iesu'n Waredwr i'r byd,
Gwrandewch gân yr angylion, rhowch glod iddo Ef,
Daeth Iesu'n Waredwr i'r byd.

Wele ddoethion yn dod ar gamelod yn awr,
Daeth Iesu'n Waredwr i'r byd,
Daw'r bugeiliaid i Fethlehem a'u gobaith yn fawr,
Daeth Iesu'n Waredwr i'r byd.

Ac fe ledodd y newydd, atseiniodd y gân,
Daeth Iesu'n Waredwr i'r byd,
Achubwyd llaweroedd, daeth eu bywyd yn lân,
Daeth Iesu'n Waredwr i'r byd.

A chyhoedder y newydd, mae'n wir fel erioed,
Daeth Iesu'n Waredwr i'r byd;
Gogoneddus yw'r gobaith yn awr i bob oed,
Daeth Iesu'n Waredwr i'r byd.

W. Rhys Nicholas